OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 595

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

## RHAN 3

Troseddau, cosbau ac erlyniadau

**Hysbysiadau cosb benodedig**

**7.**—(1) Caiff person awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw berson ("P") y mae'r person awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd o dan reoliad 6(1).

(2) Mae hysbysiad cosb benodedig yn hysbysiad sy'n cynnig i P y cyfle i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig i—

(a) Gweinidogion Cymru, neu

(b) person a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn.

(3) Pan fo hysbysiad wedi ei ddyroddi o dan baragraff (1) mewn cysylltiad â throsedd—

(a) ni chaniateir dwyn unrhyw achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad;

(b) ni chaniateir euogfarnu P o'r drosedd os yw P yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(4) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—

(a) disgrifio'r amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd,

(b) datgan y cyfnod pan (oherwydd paragraff (3)(a)) na ddygir achos am y drosedd,

(c) pennu swm y gosb benodedig,

(d) datgan enw a chyfeiriad y person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo, ac

(e) pennu dulliau o dalu a ganiateir.

(5) Rhaid i swm y gosb benodedig a bennir o dan baragraff (4)(c) fod yn £4,000.

(6) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran—

(i) Gweinidogion Cymru, neu

(ii) person a ddynodir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (2)(b), a

(b) sy'n datgan i'r taliad am y gosb benodedig ddod i law, neu na ddaeth i law, erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.